**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-03-00(min)DRAFFT**

**COFNODION DRAFFT**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 9 Chwefror 2000 | |
| **Amser:** | 9.00-12.00 | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Presenno:** | **Aelodau** | (Etholaeth) |
| | Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| | Rhodri Morgan (Ysgrifennydd y Cynulliad) | Gorllewin Caerdydd |
| | Ron Davies | Caerffili |
| | Michael German | Dwyrain De Cymru |
| | Brian Hancock | Islwyn |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Elin Jones | Ceredigion |
| | Phil Williams | Dwyrain De Cymru |
| | **Swyddogion** | (Adran) |
| | Michael Cochlin (Eitem 4) | Cyfarwyddwr, Grðp Datblygu Economaidd |
| | Steve Phillips (Eitem 3) | Pennaeth, Adran Ddatblygu Ranbarthol |
| | Gary Davies (Eitem 3) | Pennaeth, Adran Ddatblygu Ddiwydiannol |
| | Anne Stevenson (Eitem 3) | Adran Ddatblygu Ranbarthol |
| | Peter Fullerton (Eitem 5) | Pennaeth, Datblygiad Trefol a Gwledig |
| | Mike Dunn (Eitem 5) | Pennaeth, Adran Bolisi Amaethyddol |
| | **Ysgrifenyddiaeth** | |
| | Helen Usher | Clerc |
| | Jo Glenn | Dirprwy glerc |
| | Jo Trott | Dirprwy glerc |

**Eitem 1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa bod croeso iddynt siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

**Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Cairns a Helen Mary Jones. Roedd Elin Jones yn cymryd lle Helen Mary Jones.

**Eitem 2: Cofnodion cyfarfodydd 20 Ionawr a 26 Ionawr**

**Cywirdeb**

2.1 Derbyniwyd cofnodion 20 Ionawr fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

2.2 Ymddiheurodd y Cadeirydd bod enwau Brian Hancock a Helen Mary Jones wedi'u gadael allan o'r rhestr o aelodau oedd yn bresennol yng nghyfarfod 26 Ionawr. Byddai hyn yn cael ei gywiro. Ar dudalen 2, paragraff 3.1 y cofnodion dylid cyfeirio at 'storfa'r bragdy' ac nid 'bragdy'. **(Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor)**

**Camau gweithredu heb eu cyflawni a phwyntiau a godwyd**

2.3 Nodwyd y dylid cyfeirio at dreth gorfforaeth yn y papur ar gymhorthion gweithredol a fyddai'n barod erbyn cyfarfod Ebrill. **(Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor)**

2.4 Pwysleisiodd aelodau y dylai'r asiantaethau Cydraddoldeb statudol gael rôl ymgynghorol sefydlog i'r Adran Weithredol, nid y pwyllgor monitro'n unig fel a ddynodwyd yn y diweddariad i bwynt gweithredu 7. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

2.5 Byddai'r Pwyllgor yn ystyried beth oedd am ei gynnwys yn y llythyrau arweiniad strategol (cyfeirir at hyn ym mhwynt gweithredu 12) yn y cyfarfod ar 1 Mawrth. Nid oedd Bwrdd Croeso Cymru'n gallu mynychu'r cyfarfod oherwydd y byddai'n hyrwyddo Cymru ar Ddydd Gðyl Dewi. Byddai'r Pwyllgor felly'n trafod y Strategaeth Dwristiaeth a materion Rôl a Chyfrifoldeb yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth pan fyddai BCC yn bresennol. Er hynny, nid oedd hyn yn gadael llawer o amser i'r Bwrdd roi'r newidiadau ar waith cyn bod angen i'r strategaeth a'r strwythurau newydd fod yn barod (1 Ebrill).

2.6 Rhoddodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf i aelodau ynglþn ag amserlen yr arolwg ar gymorth busnes (pwynt gweithredu 13). Roedd tri ymgeisydd ar gyfer swydd yr ymgynghorydd arbenigol wedi'u cyfweld ond roedd y pedwerydd ar ei wyliau ar hyn o bryd. Wrth ystyried pwysigrwydd yr arolwg i'r Pwyllgor penderfynwyd gohirio penderfyniad ynglþn â'r swydd tan rhoi cyfweliad i'r holl ymgeiswyr addas. Byddai'r pedwerydd person yn cael cyfweliad ar ôl iddo ddychwelyd. Gobeithiai'r Cadeirydd y byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn gallu mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

2.7 Byddai llythyrau'n cael eu hanfon at sefydliadau yn ystod yr wythnos yn gofyn am eu barn ar swyddogaeth fenter y Cynghorau Hyfforddi a Menter (TECau).

2.8 Byddai'r sesiwn briffio ar 17 Chwefror yn cael ei gynnal yn TEC De Ddwyrain Cymru er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwrdd â phobl a oedd yn gweithredu'r swyddogaeth fenter. Byddai manylion pellach yn cael eu dosbarthu.

2.9 Roedd y Cadeirydd wedi derbyn llythyr gan Janet Ryder (siaradwraig llywodraeth leol Plaid Cymru) yn gofyn am gydgyfarfod pellach rhwng y pwyllgorau Datblygu Economaidd ac Amgylchedd a Llywodraeth Leol. Cytunwyd i roi gwahoddiad i aelodau'r Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Amgylchedd

i'r cyfarfod ar 1 Mawrth am sesiwn ar y cyd ynglþn â dyfodol Bae Caerdydd **(Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor)**

2.10 Dywedodd aelodau'r Pwyllgor bod y daflen gyhoeddusrwydd ar gyllid Amcan 1 wedi'i derbyn yn dda iawn ac roeddent yn awyddus i dderbyn rhagor o gopïau i'w dosbarthu. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i drefnu bod nifer fawr o gopïau ar gael, yn y Llyfrgell o bosibl, ac i roi gwybod i Aelodau am hyn. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad).** Rhoddwyd sicrwydd i aelodau y gellid trefnu ailargraffiad yn gyflym pe bai angen rhagor o gopïau. Roedd y llinell gymorth a restrwyd yn y daflen wedi derbyn tua 50 ymholiad yn ystod y pythefnos diwethaf a chyfeiriwyd galwyr at berson priodol a fyddai'n gallu rhoi'r cyngor gorau ar eu sefyllfaoedd penodol.

2.11 Cwestiynodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf ar bwynt gweithredu 34 oherwydd bod amheuaeth a oedd Prifysgol Bangor wedi ymgymryd â phroject ymchwil ar yr anweithredol economaidd yn barod. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ofyn i Michael Phelps am eglurhad pellach. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

2.12 Cytunwyd y byddai'r papur ar gyllideb Llwybr i Lwyddiant (pwynt gweithredu 36) yn cynnwys opsiynau ar gyfer y gyllideb, gan ei bod yn ymddangos bod rhestr hir o bosibiliadau ar gyfer defnyddio'r arian. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

2.13 Eglurodd Ysgrifennydd y Cynulliad bod y papur ar lefelau hanesyddol cyllid cyfatebol (pwynt gweithredu 3) ar y gweill ond bod ceisio creu cofnodion o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys WEPE, yn cymryd peth amser.

**Eitem 3: Adroddiad Ysgrifennydd y Cynulliad, gan gynnwys yr Adroddiad Chwarterol**

**Adroddiad chwarterol ysgrifenedig (papur 2)**

3.1 Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Byddai cynnydd diwedd blwyddyn traddodiadol mewn ceisiadau ar gyfer taliadau RSA.
- Gofynnwyd cwestiynau ynglþn â rheolau hyblygrwydd diwedd blwyddyn **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad).** Eglurodd Ysgrifennydd y Cynulliad ei fod am gadw arian oedd ar gael yn y gyllideb ar gyfer y project LG oherwydd y gallai'r project fynd yn ei flaen er gwaethaf yr ansicrwydd presennol (e.e. gellid cael ffyniant yn y diwydiant lled-ddargludydd). Cytunwyd i ddosbarthu papur.
- Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai arian o gyllideb y WDA yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad wrth drosglwyddo swyddogaeth masnach dramor y WDA. Cytunodd i ddarparu papur i ddangos sut y byddai'n cael ei drin. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**
- Eglurwyd mai'r rheswm am y tanwariant terfynol yng nghyllideb Corfforaeth Bae Caerdydd oedd bod projectau wedi cael eu gohirio. Cadarnhaodd swyddogion bod costau ychwanegol wedi'u cyfrif a byddai digon o arian i gynnwys pob gwariant yn dilyn ei drosglwyddo i'r cyrff olynol.

- Yngl þn â'r mater o gyllido pwll nofio ar gyfer Bae Caerdydd, eglurwyd bod trafodion ar wahân yn bodoli rhwng Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain a CBDC nad oedd yn rhan o'r broses dirwyn i ben. Er hynny, os nad oedd hyn wedi ei gwblhau erbyn 31 Mawrth byddai'n rhaid gwneud trefniadau eraill i'w cynnwys yn y trafodaethau dirwyn i ben. Roedd y Cynulliad wedi cael cyngor masnachol ynglþn â gwerth y tir ond roedd yn hyderus y byddai'n cael gwared ohono cyn y dyddiad dan sylw.
- Gofynnodd Phil Williams am eglurhad am yr arian a drosglwyddwyd i gyllideb 2000-02 ar gyfer ERDF. Cytunodd i ddarparu manylion am y cwestiwn i'r Clerc, a fyddai yn ei dro yn dilyn y mater gydag Ysgrifennydd y Cynulliad. **(Gweithredu: Phil Williams/Clerc/Ysgrifennydd y Cynulliad)**
- Roedd aelodau'n bryderus nad oedd Cymru wedi cael ei chyfran deg o'r Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo arfaethedig o ystyried y nifer o byllau glo a glowyr yng Nghymru. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i egluro os oedd hyn wedi'i gyfrifo ar sail pro-rata, ac i ddarparu gwybodaeth am y rheswm bod tanwariant mawr ac a ellid dwyn arian ymlaen. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

**Grantiau Cymorth Detholiadol Rhanbarthol**

3.2 Eglurodd Ysgrifennydd y Cynulliad na fyddai'r map Ardaloedd Cynorthwyedig yn debygol o gael ei gymeradwyo tan Fehefin/Gorffennaf. Roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi gofyn am sail ystadegol newydd ar gyfer y map yn hytrach nag ardaloedd teithio i'r gwaith. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Comisiwn gan y DTI gyda mewnbwn cryf gan Gymru. Er hynny, roedd swyddogion yn parhau i allu ystyried trwy achosion i ryw raddau.

3.3 Cadarnhawyd nad oedd trothwy is ar y lefel o grant RSA yng Nghymru, yn wahanol i Loegr.

3.4 Cymeradwywyd ymagwedd ragweithiol swyddogion i grantiau RSA. Roeddent wedi adolygu pob achos wrth ddynesu at ddiwedd y flwyddyn, wedi rhoi gwybod i gwmnïau am y problemau gyda'r map Ardaloedd Cynorthwyedig, wedi annog cwmnïau i gofnodi eu diddordeb gyda'r hen fap ac wedi prosesu'r ceisiadau'n gyflym gyda'r hen fap. Gwnaethpwyd dros hanner cant cynnig arwyddol cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r achosion yn cael eu gwerthuso fel arfer ar ôl hynny a byddai cynigion terfynol yn cael eu cyhoeddi yn ôl telerau'r hen fap. Gyda'r ceisiadau newydd a dderbyniwyd ers 1 Ionawr, roedd cynigion yn cael eu gwneud yn amodol ar ganlyniad y map newydd ac mae hyn wedi'i egluro i'r cwmnïau sy'n cymryd rhan. Nodwyd y dylai ardaloedd Amcan 1, yn ôl rheolau CE, dderbyn statws Ardal Gynorthwyedig yn awtomatig ac felly ni ddylai cwmnïau fod mewn perygl yn yr ardaloedd hyn.

3.5 Clodforodd y Cadeirydd y dull hwn. Er hynny, nododd bod camddealltwriaeth o hyd ynglþn â'r sefyllfa a theimlai y byddai'n ddefnyddiol pe gallai Ysgrifennydd y Cynulliad gyhoeddi nodyn esboniadol i sefydliadau perthnasol (fel asiantaethau menter a siambrau masnach). Cytunwyd ar hyn. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

3.6 Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i roi gwybod i'r Pwyllgor am ddatblygiadau'r map Ardaloedd Cynorthwyedig yn y dyfodol. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

**Materion eraill**

3.7 Nododd Ysgrifennydd y Cynulliad bod Bank One mewn trafodaethau â Morgan Stanley Dean Whitter ynglþn â gwerthu ei fusnes cardiau credyd yn y DU. Roedd hyn wedi creu ansicrwydd gan fod gan MSDW bencadlys ariannol Ewropeaidd arall. Nid oedd yn hysbys os oeddent am ddechrau gweithio ar ganolfan alw yng Nghaerdydd oherwydd bod ganddynt ganolfannau yn Llundain a Glasgow ar hyn o bryd. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i hysbysu'r Pwyllgor ynglþn â'r datblygiadau. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

3.8 Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai 7Cs yn agor canolfan alw newydd ym Mhont Cleddau yn cynnig 600 swydd. Byddai 200 swydd yn cael eu creu yng Nghwmbran gan Spear Group Labels. Roedd Bisley Office Furniture yn bwriadu ehangu eu ffatri cyfarpar swyddfa yng Nghasnewydd.

**Eitem 4: Gweithredu Amcan 1**

**Amcan 1 - Cynlluniau Gweithredu**

4.1 Eglurodd Michael Cochlin bod y papur yn cynrychioli'r gwaith oedd yn cael ei wneud. Roedd yr atodiad yn cynnwys gwybodaeth am becynnau rhanbarthol a oedd wedi'u cyflenwi gan y partneriaid. Roedd rhai pecynnau yn fwy datblygedig nag eraill. Er nad oedd rhai partneriaethau wedi defnyddio'r egwyddor 1/3:1/3:1/3 eto, roeddent i gyd yn gwybod bod angen iddynt wneud hynny.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod trafodaethau ar bapur 3:

- Dylid dod i gytundeb gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ddechrau Ebrill.
- Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartneriaethau'n ymwneud â TGC a datblygiad adnoddau dynol. Mynegwyd pryder bod datblygiad adnoddau dynol yn ymddangos i gael ei arwain gan gyflenwyr. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'n cael ei ddarparu trwy bartneriaeth 1/3:1/3:1/3.
- Roedd yr atodiad yn cyfeirio at sefydlu targedau ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cyflogaeth ar lefel ranbarthol. Cytunwyd y dylid cael targedau hefyd ar lefel is-ranbarthol, ond roedd hwn yn faes a oedd yn parhau i gael ei drafod gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.
- Roedd yn anodd diffinio gwledigrwydd. Roedd agwedd sectoraidd yn ogystal â chylchfaol iddo h. y. trefi mewn ardaloedd gwledig, ffermydd yn y cymoedd.
- Roedd angen dweud wrth fusnesau bach a'r sector gwirfoddol (yn enwedig sefydliadau heb gronfeydd wrth gefn) y gallai blaendaliadau fod yn bosibilrwydd. Roedd angen meddwl a thrafod pellach ynglþn â darparu cymorth technegol i'r fath sefydliadau. Roedd bwriad i gael uned i

ddarparu cymorth i'r sector preifat. Nid oedd ei leoliad wedi ei benderfynu eto.

- Roedd diffyg persbectif cyfleoedd cyfartal yn y cynlluniau gweithredu. Roedd bwriad i ddau berson yn Adran yr Ysgrifennydd fod â chyfrifoldeb am gyfleoedd cyfartal.
- O ran y gronfa ddatblygu, byddai gweithrediad arbennig ar gyfer yr ardal Amcan 1, er y gellid ei ehangu i rannau eraill o Gymru yn y dyfodol.
- Roedd y WDA i arwain nifer o gynlluniau rhanbarthol a mynegodd un Aelod bryder ynglþn ag a oedd ganddynt y ffocws priodol i wneud y gwaith hwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cynulliad sicrwydd i aelodau bod y WDA yn ymwybodol bod angen iddynt symud eu ffocws i Orllewin Cymru a'r Cymoedd.
- Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros gicdanio partneriaethau lleol ond bod yn rhaid iddynt eu trefnu ar sail 1/3:1/3:1/3. Nid oedd y rhain yn bodoli eto ym mhob rhan o'r maes rhaglen ac roedd angen gwneud ychydig o waith eto. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i gyhoeddi nodyn i awdurdodau lleol yn egluro'r berthynas rhwng blaenoriaethau lleol a rhanbarthol.
- Byddai hyfforddiant yn cael ei roi i bartneriaid gan gychwyn gyda'r pwyllgor monitro ac yna trwy'r partneriaethau. Byddai'n bwysig iawn i gyrff atebol a fyddai’n ffurfio ysgrifenyddiaethau bach. Roedd yn bwysig bod cysondeb yn y dull, er bod pryder na ddylid rhoi'r argraff bod y sector cyhoeddus yn ceisio dweud wrth y sector preifat beth i'w wneud. Nid oedd Ysgrifennydd y Cynulliad yn siðr a oedd cymorth technegol ar gael ar gyfer hyn gan y Comisiwn. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid rhoi gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd bod cynnig wedi'i wneud i ddefnyddio cymorth technegol i gynorthwyo gyda phartneriaethau hyrwyddo. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

- Y Pwyllgor Monitro fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ynglþn â phwy fyddai'r cyrff atebol, ond yn seiliedig ar argymhellion gan y bartneriaeth.

**4.3 Crynodeb y Cadeirydd**

- Roedd y Pwyllgor yn hapus yn gyffredinol gyda'r pecynnau a'r ffordd yr oedd y lefelau gwahanol o weithredu'n cael eu defnyddio.
- Rhagdybiwyd y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar y cynlluniau gweithredu gwirioneddol yn yr Atodiad i'r papur.
- Roedd angen i faterion cydraddoldeb fod yn y brif ffrwd. Dylid gwneud hyn ar ôl derbyn cyngor gan yr asiantaethau Cydraddoldeb tan i'r ymgynghorwyr fod wrth eu gwaith.
- Dylid rhoi cymorth penodol i'r sector preifat a'r sector gwirfoddol.
- Roedd angen sicrhau hyfforddiant ar bob lefel o'r bartneriaeth i gynorthwyo cysondeb gweithredu ac i wneud partneriaethau mor effeithiol â phosibl.
- Nid oedd cydbwysedd rhwng statws ac adnoddau aelodau'r partneriaethau y gellid eu hunioni gan gymorth a hyfforddiant pellach.

**Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Monitro Amcan 1**

4. Diolchodd y Cadeirydd Michael Cochlin am ei bapur ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMRh). Tynnodd sylw aelodau at y dudalen olaf yn arbennig, oherwydd ei fod yn ymdrin â rôl y Pwyllgor o ran y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Dywedodd mai'r amcan allweddol ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd oedd sicrhau darpariaeth yr amcanion a nodwyd yn y Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol (SDdEG). Byddai'r Pwyllgor angen adroddiadau ar nifer o faterion gan gynnwys i ba raddau oedd y rhaglenni'n cwrdd â dangosyddion SDdEGau, yn ogystal â materion gonestrwydd a monitro ariannol. Roedd y mater o amlder cyfarfodydd gyda'r PMRh angen ei drafod hefyd. Agorodd y Cadeirydd drafodaeth rydd wedyn a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd consensws clir y dylai'r Pwyllgor ymwrthod â'r demtasiwn o fod yn uniongyrchol yn ei berthynas â'r PMRh. Teimlwyd bod y berthynas a nodwyd ym mharagraff 6 EDC-03-00(p.4W) yn briodol ar y cyfan. Dylai trafodaethau rhwng y Pwyllgor a'r PMRh fod trwy Ysgrifennydd y Cynulliad yn y lle cyntaf.
- Byddai'r PMRh yn bodoli ar ffurf gwrthblaid i ddechrau tan i'r Ddogfen Raglennu Unigol gael ei chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ni allai corff gwrthblaid gymryd rhan ffurfiol mewn trafodaethau â'r CE, ond roedd cynrychiolwyr i'w cynnwys er hynny ar lefel anffurfiol i sicrhau parhad.
- Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r rhestr o swyddogaethau manwl a ddisgrifiwyd i'r PMRh gael eu hehangu i gynnwys cyfeiriad penodol at ei rôl wrth fonitro cyflawni targedau ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**
- Teimlwyd y dylai Amcanion 2 a 3, y Cynllun Datblygu Gwledig a'r pwyllgorau monitro LEADER+ ac INTERREG fod o fewn maes cyfrifoldeb y PDE a than ymbarél SDdEG.
- Cydnabuwyd bod angen ystyried amseru ac amlder arolygon. Roedd y Rheoliadau yn nodi arolwg bob hanner tymor gan y Comisiwn ei hun, ond roedd gan y Cynulliad ryddid i bennu ei amserlen ei hun. Cytunwyd y dylid cael seminar 'rhoi cefndir' gyda chynrychiolwyr o'r pwyllgorau monitro amrywiol. Byddai amseru yn amodol ar gymeradwyo'r cynlluniau ffurfiol. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i drafod y mater yn fwy manwl gyda'r Cadeirydd. **(Gweithredu: Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Cynulliad)**
- Roedd yn bwysig gwahaniaethu rhwng monitro a gwerthuso. Cynigiodd Mike German sefydlu uned werthuso ar wahân a fyddai'n gwerthuso rhaglenni'n barhaus. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo'n uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn hysbysu ei adolygiadau o'r PMRh. Croesawodd aelodau ei gynnig i gynhyrchu papur ar y cynnig hwn, a chytunodd i'w gyflwyno i'r Cadeirydd ar gyfer ei ddosbarthu i aelodau. **(Gweithredu: Mike German AC)**
- Hysbyswyd aelodau bod y mwyafrif o'r cyfweliadau ar gyfer swydd y Prif Weithredwr wedi'u cynnal a bod penodiad yn debygol o gael ei wneud erbyn diwedd y mis. Roedd yr ymgeiswyr o ansawdd uchel ac roedd y mwyafrif ar gael yn eithaf cyflym pe baent yn cael eu penodi. Roedd cynrychiolydd o bob sector llywodraeth leol, gwirfoddol a phreifat wedi cymryd rhan yn y broses benodi.

**Crynodeb y Cadeirydd**

4.5 Wrth grynhoi, nododd y Cadeirydd y canlynol fel pwyntiau allweddol a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Ni ddylai'r Pwyllgor fod yn uniongyrchol yn ei berthynas gyda'r PMRh.
- Byddai'r Pwyllgor yn cynnal seminar gyda chynrychiolwyr o bob pwyllgor monitro er mwyn rhoi'r cefndir yn glir o fewn cyd-destun SDdEG.
- Roedd yn rhaid ystyried amseriad ac amlder adolygiadau cynnydd Pwyllgor.
- Roedd yn bwysig gwahaniaethu rhwng monitro a gwerthuso.

**Eitem 5: Y Cynllun Datblygu Gwledig**

5.1 Wrth egluro'r cefndir ar gyfer y ddadl, dywedodd y Cadeirydd bod y Cynllun Datblygu Gwledig o bwysigrwydd sylfaenol o ran cyd-destun y SDdEG a'r rhaglen Amcan 1. Pwrpas yr eitem hon oedd gwella ymwybyddiaeth aelodau o'r Cynllun ac i ddechrau ystyried sut oedd yn ymwneud â chyfrifoldeb y Pwyllgor am faterion trawsbynciol fel twristiaeth a datblygiad busnesau, yn enwedig busnesau bach.

5.2 Pwysleisiwyd y pwyntiau canlynol wrth gyflwyno papur (EDC-03-00(p.5W)):

- Roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi datgan bod y Cynllun yn 'dderbyniadwy' ym mis Ionawr. Roedd disgwyl ymateb ffurfiol yn awr.
- Fframwaith cyffredinol y Cynllun oedd SDdEG. Er hynny, roedd yn dipyn o hybrid, yn cynnwys rhaglenni prif ffrwd a rhaglenni eraill ac yn cysylltu ag Amcanion 1 a 2 a 3, mentrau LEADER+ a INTERREG a mesurau EAGGF. Cydnabuwyd bod angen gwaith pellach ar y synergedd - yn enwedig rhwng y Cynllun Datblygu Gwledig, SPD Amcan 1 a'r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol - oherwydd bod Cynlluniau amrywiol wedi'u paratoi ar adegau gwahanol.
- Roedd angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r berthynas rhwng EAGGF a phwyllgorau monitro Amcan 1 oherwydd agosrwydd eu briffiau. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau cysylltiad ar lefel leol a rhanbarthol os oedd y dull pecyn o weithredu yn mynd i fod yn llwyddiant. Mynegwyd pryder ynglþn â'r cydbwysedd rhwng cyllid a ffocws - gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer datblygu gwledig dan Amcan 1, a'r ffocws dan y pwyllgor monitro EAGGF.
- Mynegwyd pryder am y diffyg cyfeiriadau at bysgodfeydd yn y Cynllun. Eglurwyd bod hyn oherwydd ei fod wedi'i baratoi ar sail rheoliad EAGGF (Y Gronfa Warant ac Arweiniad Amaethyddol Ewropeaidd), er bod pysgodfeydd mewndirol yn cael eu cynnwys. Roedd rheoliad FIFG (EAGGF cyfatebol y Pysgodfeydd) angen cynllun ar wahân ar gyfer pysgodfeydd yn awr. Roedd hwn yn debygol o ganolbwyntio ar ffermio dðr (pysgod cregyn ac ati) yn hytrach na physgota môr agored oherwydd bod mwy o le i ddatblygu yn y maes hwn.
- Nid oedd y cyllid yn syml. Yn gyffredinol roedd y Cynllun yn llawer mwy na ffrwd gyllido EAGGF. Roedd cyfran Cymru o'r EAGGF yn £12.6 miliwn y flwyddyn am 7 mlynedd. Byddai hyn yn cynorthwyo'r pedwar 'mesur oedd i ganlyn' (gweler paragraff 6 EDC-03-00(p.5W) ledled Cymru, yn ogystal â'r mwyafrif o fesurau Rheoleiddio Datblygu Gwledig yn Nwyrain Cymru (er bod ychydig o gwmpas i adnoddau Amcan 2 i gynorthwyo gweithgarwch datblygu gwledig

penodol). Roedd ychydig o gwmpas i'r cronfeydd ar gyfer mesurau oedd i ganlyn gynyddu gan drawsgyweirio taliadau cymhorthdal fferm ar sail y DU. Roedd y Trysorlys wedi cytuno y byddai cyllid ychwanegol ar gael i'r Cynulliad pe gellid cytuno ar drawsgyweirio. Hefyd, roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am bennu pa fesurau (fel cymorth i dwristiaeth, cymorth busnes) ddylai gael eu cyllido ar y cyd (e.e. gan Amcan 1), tra bod mesurau eraill angen eu cyllido ar sail cwbl ddomestig.
- Mynegwyd pryder bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn ymddangos nad oedd ganddo thema ganolog ddigon clir. Awgrymwyd cynaladwyedd fel thema: datblygu economi gwledig gynaliadwy, cryf, amrywiol ac iach. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei thrafod â'r CE. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

**Syniadau'r Pwyllgor Datblygu Amaethyddol a Gwledig**

5.2 Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Amaethyddol a Gwledig yn gofyn os oedd y pwyllgor am weld unrhyw faterion yn cael eu cynnwys wrth ystyried Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol y CE. Roedd y Pwyllgor Datblygu Amaethyddol a Gwledig wedi trafod y mater y bore hwnnw a nododd Peter Fullerton eu syniadau:

- Roedd pryder ynglþn â'r lefel o gynrychiolaeth wledig ar y pwyllgor monitro Amcan 1. Nodwyd bod tri o'r pedwar AC ar y pwyllgor monitro yn cynrychioli De Ddwyrain Cymru. Mewn ymateb, atgoffwyd Aelodau bod LEADER+ a'r undebau ffermio'n cael eu cynrychioli. Roedd yn ymddangos bod cynrychiolaeth ddigonol o ran aelodau o gefn gwlad hefyd.
- Dylai targedau ar gyfer Amcan 1 fod mor lleol ag sy'n bosibl.
- Dylai'r dangosyddion fod â dimensiwn gwledig.
- Roedd angen sicrhau hyblygrwydd fel bod ardaloedd gwledig yn gallu cyfrannu'n llawn at y rhaglen a derbyn budd llawn ganddi.
- Roedd pryder bod diffyg datblygu cynlluniau mewn ardaloedd gwledig lle y gellid cael amseroedd arwain hirach.

**Crynodeb y Cadeirydd**

5.3: Cododd y Cadeirydd y pwyntiau canlynol wrth grynhoi:

- Roedd y PDE yn deall pryder y Pwyllgor Datblygu Amaethyddol a Gwledig ynglþn â chyfansoddiad y pwyllgor monitro Amcan 1, ond roeddent o'r farn y byddai'n anodd iawn ailagor y ddadl ar adeg mor ddiweddar. Nodwyd bod yr Aelodau Cynulliad a benodwyd wedi'u penodi oherwydd eu cyfrifoldebau ac nid i gynrychioli eu hardaloedd.
- Roedd y Cynulliad yn ystyried bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn sylfaenol i lwyddiant cyffredinol y rhaglen Amcan 1 ac felly ei bod yn hanfodol i'r ddau gael eu hintegreiddio dan reolaeth SDdEG. Byddai'r Pwyllgor Datblygu Amaethyddol a Gwledig yn cael gwahoddiad i drafod integreiddio gydag aelodau'r PDE mewn cyfarfod yn y dyfodol. **(Gweithredu: Cadeirydd)**

**Eitem 6: Rhaglen Weithio at y Dyfodol**

6.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem trwy egluro bod Rheol Sefydlog 9.9 yn gofyn i'r Pwyllgor gynnal rhaglen waith barhaus yn cwmpasu o leiaf 12 mis, ac i'w chysylltu ag amcanion eraill y Cynulliad, gan gynnwys [drafft] y ddogfen "Gwella Cymru". Nid oedd wedi bod yn bosibl llunio rhaglen waith fanwl eto oherwydd nad oedd ymgynghorydd arbenigol ar yr arolwg cymorth a datblygu busnes wedi'i benodi eto. Roedd yn rhaid casglu syniadau a sylwadau cychwynnol aelodau ar y cynigion drafft i ddechrau.

6.2 Cytunwyd y dylai pob plaid gael y cyfle i roi sylwadau ar y ddogfen, a chan nad oedd gan ddwy blaid gynrychiolaeth ar y pryd, ystyriwyd y byddai'n briodol trafod i ddechrau gyda llefarwyr y pleidiau cyn i'r rhaglen gael ei hystyried yn llawn gan y Pwyllgor. **(Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor)**

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

18 Chwefror 2000